# Recorders' Newsletter

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 32 (Gaeaf 2013/14)**

## Crachan?

Chwi gofiwch i mi godi, yn rhifyn diwethaf 'Cylchlythyr y Cofnodwyr', fater neu ddadl y pysgod bach oedd yn arfer byw yng ngwaddod silt glofa ein hafonydd. Er nad oeddwn i'n sicr sut i sillafu enw'r creadur, llwyddais i sbarduno cryn dipyn o drafodaeth ddiddorol. Dyma'r ymateb a gefais gan Rob Jones: *'Gair bach sydd gyda fi am y crachadon. A minnau'n grwt ifanc, roeddem ni'n arfer eu dal yn yr afon tu ôl i Barc y Gelli. Roedd eu lliw yn amrywio o felynwyrdd i liw eithaf du. Hefyd byddem ni'n dal* ***sgorpioniaid môr****, neu '***pennau lletwad*** *oedd yr enw arall arnynt. Pysgod bach oedd y rhain, gyda phennau mawr. Rwy'n cofio dal rhyw berthynas ddŵr hallt i un o'r rhain yn y pyllau glan môr ger Bae Gorffwys, Porthcawl'* Roedd Wynford Price yn eu cofio fel **crethyll** ei ieuenctid. Yn ôl Vic Doyle, '*Rhyw amau wyf fi'u bod yn cyfeirio at y* ***wrachen farfog****. Mae'r rhain i'w cael yn bendant yn Afon Rhondda Fach, yn y pwll troellog ym Mlaenllechau.'* Mae Vic wedi gyrru llun hyfryd ohono fe yn ei gwrwgl newydd ar bwll troellog Blaenllechau. '*Dyma'r tro cyntaf i rywun fynd ar Afon Rhondda Fach mewn cwrwgl,'* meddai, *'ac rwy'n eithaf sicr fod yr un pysgodyn wedi cael dolur wrth i mi wthio fy nghwrwgl i'r dŵr!'*

Mewn sgwrs o flaen Cymdeithas Ddinesig y Rhondda yn Nhreorci, roedd y farn gyffredin yn gadarn o blaid y wrachen farfog. Clywsom yn yr un cyfarfod gan enweiriwr lleol profiadol, a ddywedai fod gwrachod barfog yn llawer mwy cyffredin yn y Rhondda, hyd yn oed yn nyddiau'r gwaddod silt glo. Bellach, roedd eu niferoedd wedi cwympo. Os gwn i beth sydd wedi achosi hyn? Rhaid fod ansawdd y dŵr wedi gwella bellach, a'r dŵr yn gliriach hefyd. Felly beth sy'n effeithio ar y gwrachod barfog? Ac fe soniodd yr un genweiriwr, wrth fynd heibio, am ryw greadur rhyfedd o'r enw '*boenji* (coleiwch neu beidio), sef enw'r sgorpion môr yn y Rhondda! Mawr ofnaf fod f'ymdrechion i sillafu enw'r creadur wedi crwydro ymhell. Tybed a fedr rhywun helpu?

## Tywydd

Yn ôl adroddiadau tywydd Marcus Middlehurst, mis eithaf sych oedd Medi, gyda chyfanswm y glawiad yn ddim ond 112mm. Daeth 40mm o hwnna ar y 12$^{\text{fed}}$.

(Cofnododd Paul Marshman 2 fodfedd dros yr un 24 awr o'i fesurydd glaw ef yn Llwyn-y-pia.). Roedd mis Hydref yn wlypach, gyda 477mm. Roedd 77mm o hyn ar yr $21^{ain}$ a '*dim ond pum niwrnod heb law yn y mis i gyd!'*. Bu amodau'r tywydd yn sych eto ym mis Tachwedd, gyda 270mm (a 61mm o hwnna ar y 6ed). Ond roedd hi'n oerach hefyd, gydag eira cyntaf y gaeaf ar y 18fed, *'er bod glaw ar yr un pryd hefyd'.* Ond fe ddychwelodd y llifau aer o Fôr Iwerydd tua'r gorllewin heb os nac onibai ym mis Rhagfyr. 684mm oedd cyfanswm y glawiad. Roedd y glawiad mwyaf, sef 81mm, ar y $29^{ain}$, 70mm ar y 15fed a'r $23^{ain':}$ 'Clymais y cwch eto, a thynnu fy motasau pysgota a het sowestar - a dim ond wedi mynd i nôl y mesurydd glaw oeddwn i!' Cyfanswm Marcus ar gyfer mis Ionawr oedd 592.5mm o lawiad, gyda'r uchafswm glawiad yn 66mm, ar y 3ydd. Dyna ddangos gymaint o asgwrn cefn sydd gan Marcus. Er bod y cyfanswm ar gyfer mis Ionawr yn tynnu am 600mm, fe ddywedodd '*NAD oedd hyn yn gymaint â'r disgwyl, ac ystyried ei bod yn bwrw bron bob dydd'.* Ychydig filltiroedd ymhellach i lawr y Rhondda, fe gofnododd Paul Marshman 17 modfedd o lawiad (sef tua 435, rwy'n credu) yn Llwyn-y-pia.

3,138.5mm oedd cyfanswm glawiad Marcus ar gyfer 2013. Roedd hyn yn cynnwys 450mm o eira. Mae Marcus wedi anfon ei gyfansymiau glawiad ar gyfer Treherbert dros y pedair blynedd ddiwethaf hefyd. Yn y cyd-destun hwn, roedd 2013 yn llawer llai gwlyb na 2012, ond yn wlypach na phob un o'r blynyddoedd eraill oddi ar hynny, ac yn cynnwys 2009 (cyfanswm glawiad 2009 yn 2553.3mm, cyfanswm 20 yn 2,085.38mm, cyfanswm 2011 yn 2,996mm, a chyfanswm 2012 yn 3,966.5mm).

Dyma'r grynodeb a gefais gan Mark Evans o dywydd 2013 yng Nghwm-bach;

Mis Ionawr - 226.75mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 6.02, tymheredd cyfartalog isaf 1.36
Mis Chwefror - 78.35mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 5.61, tymheredd cyfartalog isaf 0.30
Mis Mawrth - 129.45mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 5.98, tymheredd cyfartalog isaf 0.29
Mis Ebrill - 65.20mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 11.06, tymheredd cyfartalog isaf 2.65
Mis Mai - 136.86mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 15.30, tymheredd cyfartalog isaf 4.88
Mis Mehefin - 77.35mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 18.96, tymheredd cyfartalog isaf 8.95
Mis Gorffennaf - 72.55mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 24.97, tymheredd cyfartalog isaf 12.17
Mis Awst - 139.00mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 20.85, tymheredd cyfartalog isaf 10.85
Mis Medi - 76.50mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 17.95, tymheredd cyfartalog isaf 8.12

mis Hydref - 361.75mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 14.81, tymheredd cyfartalog isaf 8.54
Mis Mehefin - 136.65 o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 9.26, tymheredd cyfartalog isaf 1.91
Mis Rhagfyr - 443.10mm o lawiad: tymheredd cyfartalog uchaf 8.77, tymheredd cyfartalog isaf 2.71
Cyfanswm 1,943.45mm o lawiad, tymheredd cyfartalog uchaf 13.29, a thymheredd cyfartalog isaf 5.18

Mae cofnodion Mark yn nodi yn gryno am wanwyn hir oer 2013, ac am yr hydref hir mwyn. Mae gwahaniaeth trawiadol rhwng cyfanswm y glawiad rhwng Cwm-bach a Threherbert. Rhaid bod hyn yn sgîl ac oherwydd yr uchder, a pherthynas y tir uchel â chyfeiriad y prif wyntoedd.

**Hyfrydwch yr Hydref**
Gyrrodd Mark Evans yr hanes sy'n dilyn ataf yn gynnar yn yr hydref, Profiad gwirioneddol hyfryd i'r hydref oedd hyn, ac yn dod â nifer o luniau anhygoel hefyd. *'Roedd blas o'r gaeaf yn yr awyr ddydd Sadwrn wrth i mi gychwyn am dro tua chwr Coedwig Llanwonno. Dyna lle mae fy sgwâr graidd i ar gyfer arolwg bronfreithod Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig y gaeaf hwn. A minnau'n cerdded o'r car i fyny tua'r sgwaryn, cefais fy synnu gan pa mor niferus yw'r ffyngau sy'n addurn i'r planhigfeydd conwydd a ffawydd fel ei gilydd. Mae cyfoeth arbennig o ffyngau, o ran amrywiaeth a swm, yn y planhigfeydd ffawydd y teithiais drwyddynt. Roedd hi'n waith caled i gadw meddwl ar yr arolwg, ac i gadw'r ffyngau nes i mi gwblhau'r gwaith mewn llaw.*

*Mae'n dal yn ymddangos yn rhyfedd i dreulio oriau yn y goedwigaeth, heb weld na chlywed yr un* ***gylfingroes.*** *Roedd y bronfreithod a brychod bron mor brin, ond mi gofnodais i o leiaf bedair o* ***fwyeilch , a thair bronfraith****.*

*A minnau ar 100 metr olaf y trawsluniad, arhosais i graffu, ac i wrando am fronfreithod a brychod. Tu ôl i mi gorweddai planhigfa sbriws aeddfed. O'm blaen roedd wal gerrig sych, a thu hwnt i honno gonwydd a ailblannwyd o'r newydd ryw saith neu wyth mlynedd yn ôl. A minnau'n sefyll yno, mi sylwais ar rywbeth yn symud lle'r oedd rhan o'r wal wedi'i thorri i lawr. Sylweddolais ar unwaith fod yno bâr o famaliaid gweddol fach. Rhois i fy holl sylw iddynt ar unwaith. Rhyw ddisgwyl oeddwn i weld pâr o fronwennod neu garlymod, ond creaduriaid â streipiau brown, du, a gwyn oedd y rhain. Wrth i'r mamaliaid fy ngweld i, rhoesant y gorau i chwarae ar unwaith. Eisteddent yno yn fy ngwylio, a dyna fi hefyd yn sefyll yn stond wrth weld pâr digamsyniol o* ***wiwerod rhesog****.*
*Bues yn eu gwylio am ychydig funudau, ac yna sylweddoli na fyddai neb yn fy nghoelio. Yn araf deg, mi dynnais fy ffôn o'm poced, a thynnu ychydig luniau. Llwyddais i'w tynnu, ac arhosodd y gwiwerod rhesog yn eu hunfan. Dyma fi felly'n penderfynu tynnu fy nghamera atgyrch lens sengl digidol o'i fag. Gwaith mwy anodd, trafferthus, ac aflonyddgar ond fe gawn i well lluniau. Roeddent yn ddigon awyddus i wybod a chwilfrydig i aros o fewn golwg, ond hefyd yn gyndyn*

*iawn i rywun ddod yn agos. Gan nad oedd lens teleffoto gennyf, gwyddwn y byddai gofyn am docio. Roeddem ni mewn planhigfa sbriws, gyda goleuni gwael, ac nid oedd modd i mi ddefnyddio ffilm o sensitifrwydd uchel. Ar ôl tynnu ychydig luniau, gadewais lonydd iddynt a bwrw ymlaen a chwblhau f'arolwg. Roedd raid i mi ddychwelyd y ffordd honno, felly dyma fi yn aros yno i gael lleoliad System Leoli Fyd-eang- ac ychydig luniau yn rhagor, o bosibl. Roedd un ohonynt yn eistedd ar ben y wal, i'r chwith wrth ymyl ac ochr derwen grablyd, a llwyddais i fachu ambell lun arall ohoni. Trois wedyn tua'r dde, a dyna oedd y llall, hefyd yn eistedd ar y wal, ac yn ei golchi'i hun. Wrth i mi'i gwylio, mi sylweddolais fod un arall ychydig fetrau i ffwrdd. Ar ôl gwirio, sicrhau, a chadarnhau fod yr un tua'r chwith yn dal yno, mi welwn fod yma dair o wiwerod rhesog. Mi nodais y lleoliad System Leoli Fyd-eang, ac yna wirio'r un tua'r chwith eto (yma o hyd). Edrychais i lawr y wal tua'r dde, a dyna oedd y tair gwiwer resog arall yn eistedd yn jocôs. Ni welais ragor o'r pedwar creadur, ac i ffwrdd a fi felly a gadael llonydd iddynt. Pam roeddent yno? Rhaid fod rhywun wedi'u rhyddhau yn fwriadol. Ond pryd digwyddodd hyn, a sawl gwiwer resog oedd i ddechrau? Tybed a oedd y pedair ohonynt wedi cael eu rhyddhau, neu un pâr oedd wedi dechrau magu a bridio? Roedd golwg iau na'r ddau a welais yn wreiddiol ar un o leiaf o'r rhain. Sawl gwiwer resog sydd i'w cael yno, fodd bynnag? Beth (os dim) a ddylem ni wneud yn ei gylch?*

Mi synnais i'n fawr o ddarllen adroddiad Mark. Rwyf wedi gweld gwiwerod rhesog ar werth mewn siopau anifeiliaid anwes. Ond, yn ôl pob sôn, ni fyddant yn anifeiliaid anwes arbennig o hapus.  Yn sgîl ychydig ymchwil, mi wn fod gwiwerod rhesog wedi ymsefydlu mewn cytrefi mawr yng Ngwlad Belg. Hyd yn hyn, serch hynny, nid oes neb wedi cofnodi cytrefi yng Nghymru. Creaduriaid anhygoel o hardd yw'r rhain, ac roedd ffotograffau Mark yn wych. Ond ysglyfaethwyr barus ydynt hefyd, yn bwyta adar sy'n nythu ar y llawr. Mae hyn yn argoeli'n wael os llwyddant i sefydlu poblogaeth. Mae Mark wedi cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru, ac wedi cynnal ac ymgymryd ag ymweliad safle er mwyn dangos y lleoliad iddynt. Os gwelwch chi wiwerod rhesog, fyddech chi mor garedig â rhoi gwybod i Gyfoeth Naturiol Cymru (neu i fi)? Rhaid i ni aros i weld a gafodd cytref hyfyw ei sefydlu.

**Adar**

Ymddengys fod y **gwenoliaid,** gan gynnwys **gwenoliaid y bondo** wedi dechrau mudo ar gyfer yr hydref yn gynharach eleni. Gwyliais grwpiau ohonynt yn hedfan drwy Feisgyn dros wythnos olaf mis Medi. Ar y 29ain, yn Llanilltud Fawr, mi welais haid anferthol ohonynt yn symud. Roedd rhai miloedd o wenoliaid, gan gynnwys gwenoliaid y bondo yn mudo tua'r dwyrain ar hyd y glannau, yn erbyn gwynt blaen helaeth a sylweddol. Roedd gan Paul Marshman grwpiau o 30 o wenoliaid y bondo uwchben ei dŷ ar y 23ain o fis Medi. Roedd ychydig yn rhagor, fesul un neu ddiwyd, ym Mhontypridd hyd at fis Hydref 1af, ond fawr ddim ar ôl hynny. Peth arall a nododd Mark Evans yng Nghwm Cynon oedd aderyn mudol olaf yr haf yn sleifio i ffwrdd yn gynnar ym mis Hydref. Yn ôl ei nodyn, *'Roedd heidiau a heidiau o wenoliaid yn mynd heibio i lawr y Cwm yr wythnos ddiwethaf. Erbyn*

*hyn, dim ond ambell i wennol fach sydd ar ôl.* ***Mae siff-siaffod*** *yn dal i fynd drwodd, yn ogystal ag ambell* ***delor penddu****'.* Ymddengys fod y gwenoliaid, gan gynnwys gwenoliaid y bondo, wedi gorffen mudo yn yr hydref ddeng niwrnod yn gynharach.

Ond galwad fy nghymydog Chris Lindley ym mis Hydref ddaeth â'r syndod mwyaf ataf. Galw 'roedd i ddweud fod ei gi wedi dal **sofliar** yn ei ardd gefn ym Meisgyn. Roedd ef wedi achub yr aderyn, a'i gadw yn ddiogel mewn blwch. Gelwais heibio, ac yn wir roedd ef wedi achub sofliar fenywaidd, neu un ifanc. Er gwaethaf pawb a phopeth, roedd golwg digon sionc ar y sofliar. Cafodd ei rhyddhau gan Chris maes o law. Gobeithio'i bod yn mwynhau'r heulwen ym Mynyddoedd yr Atlas erbyn hyn, Cawsom adroddiadau yn y blynyddoedd diweddar fod soflieir i'w gweld ar hen safle glo brig Llanilid yn Llanharan. Efallai taw o'r fan honno y daeth y sofliar hon. Dyma yn sicr oedd y sofliar gyntaf a welais erioed.

Yn ôl Mark Evans, yn ardaloedd Cynon a Merthyr roedd cyfri'r **cigfrain** yn gynnar ym mis Hydref wedi rhoi cyfanswm o 183, *'y trydydd cyfanswm uchaf erioed ar gyfer mis Hydref'.* Yn ogystal â hyn, mae Mark wedi gyrru crynodeb hynod ddiddorol o'r 49 o ymweliadau arolygu a wnaeth i'r glwydfan cigfrain yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd amrywiadau mawr yn y niferoedd. 425 oedd y cyfrif mwyaf, ym mis Medi 2012. Mae patrwm cyson i'w weld (wedi'i arddangos mewn modd hyfryd gan gyfartaledd misol y siartiau bar) sy'n dangos fod y niferoedd yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Awst (gyda bron 250), cyn dirywio yn raddol i ryw 100 o adar o fis Tachwedd i fis Mawrth, ac yna godi yn raddol drachefn i'w huchafswm ym mis Awst. Mae hyn i gyd yn cydweddu'n berffaith â thymor magu'r cigfrain. Dyna pryd y bydd yr oedolion adar aeddfed sydd wedi paru yn dal tiriogaethau ac yn codi a magu cywion o'r gaeaf drwodd i fis Mawrth, ac yna yn clwydo a heidio ar y cyd dros yr haf. Fel y nododd Mark, fe ymddengys fod poblogaeth symudol o'r adar hyn. Tua 100 ohonynt sydd, sy'n nythu a bridio fel cymuned, drwy gydol y flwyddyn. Cwestiwn arall ganddo oedd pa mor bell roedd y cigfrain hyn yn cael eu hatynu i'r glwydfan. Yn ôl pob sôn, mae'r adar yn y clwydfannau a nythfeydd hyn yn trosglwyddo swm anferthol o wybodaeth i'w gilydd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod yr adar, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am ffynonellau bwyd. Os yw'r rhain yn hanfodol, hollbwysig, ac allweddol er mwyn goroesi, gallant fod yn werth teithiau hir bob dydd. Yn fuan ar ôl i adroddiad Mark ddod i law, dywedodd Strinda Davies wrth iddi weld saith cigfran yn hedfan, fesul un neu ddwy, tua'r de uwchben Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys, yn gynnar un bore ym mis Ionawr. Tybed ai o glwydfan Mark roedd y cigfrain hyn wedi dod?

Ynghlwm â'r 49 o ddisgrifiadau o'r arolwg roedd arsylwadau cryno, ond dadlennol a thrawiadol: Fe brofodd Mark fod angen codi'n gynnar ar 6/10/2013 er mwyn cyfrif cigfrain, wrth iddo nodi *'tair seren wib yn rhan Gemini'r wybren'* ac yntau yn aros i'r cigfrain ddihuno, ac wrth *gychwyn yn hwyr ar 12/6/2011. Buont wrthi am amser hir yn hedfan allan. Ehedydd yn canu am dri o'r gloch y bore. Clywed pâr o gogau'*. Ar 2/3/2012, nid oedd ond *'Galwadau ysbeidiol. Yn dywyll iawn ar*

*ddechrau'r cyfrifiad, a'r adar yn anodd eu cyfrif gan eu bod yn gwibio yn ôl ac ymlaen. Roedd sain côr y bore bach yn ymledu i fyny'r cwm tua'r glwydfan/nythfa.' Ar yr ochr negyddol, mae cofnod 3/2/2013 yn nodi 'poenus o oer'*. Problem arall a brofwyd ym mis Ebrill 2012, sef *'gwybed yn creu ffwdan. Roedd yr hylif cadw pryfed draw yn eu hatal rhag pigo, ond roeddent yn dal i fynd i'm llygaid'*

Fel bob amser, cyrhaeddodd ymwelwyr y gaeaf yn sgîl adar mudol yr haf, a'r rheiny yn ymadael. Cafodd **cochion dan adain** cynnar eu cofnodi ar fis Hydref 12fed gan Paul Marshman. Fe nododd ef **binc y mynydd** yn ei ardd hefyd**,** ar y 13eg a'r 14eg. Yn ogystal â hyn fe sylwodd Paul ar **walch Marthin** yn aflonyddu ar haid o gochion dan adain yn mudo ar yr 20fed o fis Hydref. Fe welodd Paul **las y dorlan** ar Afon Rhondda yn Llwyn-y-pia ar ddiwedd mis Medi. Fe gofnododd Jenny O'Hara-Jackaway las y dorlan marw yn ei gardd gefn yn y Porth yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Ymddengys fod llai o adar gardd yn dioddef haint a chlefyd parasitig ***trichomanes*** erbyn hyn. Serch hynny, y mae Paul yn dal i gofnodi **ji-bincod** a **chochion y berllan** ag arwyddion o'r haint a chlefyd yr hydref a gaeaf yma.

Fe welodd Geoff Williams naw **hwyaden ddanheddog** ar Afon Rhondda yn gynnar ym mis Medi, yn ogystal ag **adar y to** a **thelorion y cnau** yn ei ardd. Fe welodd Kevin Oates **hwyaden ddanheddog** fenywaidd yn gynnar yn yr hydref ac yntau ar bont Marks and Spencer ym Mhontypridd. Cofnododd Strinda Davies hwyaden ddanheddog wrywaidd o ddarn tebyg o Afon Taf. Fe welodd hi'r aderyn gwrywaidd ar yr un darn o'r afon ar fis Ionawrfed, yn agos i lle gwelodd chwech ohonynt ar 27ain.

Nid yw **cudyllod cochion** yn adar mor gyffredin ag y buont gynt. Serch hynny fe fu'r adar hyn i'w gweld yn rheolaidd y gaeaf hwn, yn hela dros ymylon glaswelltir corsiog Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys. Gwelodd Kevin Oates un o'r adar yn hela uwchben Blaenllechau ym mis Ionawr. Trosglwyddodd Kevin adroddiad gan Angharad Morgan hefyd. Roedd hi wedi gweld llawer o weithgarwch **tylluanod brychion** yng Nghilfynydd. Fe welodd Kevin, ac yntau yng nghwmni Ray Edwards, chwiwell ar Nant Cae Dudwg yng Nghilfynydd. Yn anaml y daw cofnodion o chwiwellod i law.

Rhywogaeth yw **cnocellau gwyrddion** a allai fod ar fin a throthwy gostyngiad a dirywiad yn y boblogaeth. Ymddengys eu bod yn cilio tua'r dwyrain o siroedd y Gorllewin, ac mae'n bosibl y byddant yn dechrau cilio o'n hardal ni cyn hir. Serch hynny, mae arsylwadau Jonathan Barratt yn awgrymu darlun mwy golau yn yr ardal hon. *Dyma air bach ar gnocellau, gan i mi weld mwy o gnocellau gwyrddion dros yr ychydig wythnosau diwethaf nag yn y ddwy flynedd cyn hynny. Roeddent i'w gweld ar eu mwyaf niferus ger safle'r hen lofa yn y Maerdy, neu i fyny ger Tafarn y Brynffynon yn Llanwonno. Hefyd mi welais gnocell fraith fwyaf ar hen Ffordd y Plwyf, rhwng Llanwonno a Tylorstown, yr wythnos hon.*

Rhaid cyfaddef nad wyf ymhlith selogion **ffesantod**. Mae heidiau mawr ohonynt yn cael eu magu a'u rhyddhau yn nwyrain Lloegr. Rhyw ieir gyda chynffonau hir fuont yn fy ngolwg i, ac mae'n wir nad oeddent i'w gweld yn aml yn Rhondda Cynon Taf. Serch hynny maent wedi dechrau cyrraedd Cwm Dâr. Yng nghanol mis Rhagfyr fe welodd Kevin Oates geiliog ffesant ym Mharc Nant Celyn, Efail Isaf, ger pwll dŵr bywyd gwyllt newydd. Mae hyn i gyd yn awgrymu i rywun fod yn eu rhyddhau a'u gollwng yn y cyffiniau.

Dyma'r nodyn a gefais gan Stuart Jones yn hwyr ym mis Ionawr: '*Hwyrach y byddai o ddiddordeb i chi glywed am y **barcud coch** a welais uwchben Trefforest ddeng munud yn ôl. Roeddwn i'n edrych allan o ffenestr fy swyddfa yn y Brifysgol. Roedd yn dod ar draws y cwm o gyfeiriad Mynydd Caerffili. Dyma'r un cyntaf a welais yn yr ardal'.*

Penwythnos Gwylio Adar yr Ardd Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar oedd mis Ionawr 25ain. Mae David Harry wedi gyrru ataf ei grynodeb o'r 20 rhywogaeth a welwyd ar y diwrnod yn ei ardd. Roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys 30 siff-siaff, 14 nico, 7 o adar y to, dros 20 o bilaod gwyrddion, ac un llinos bengoch. Roedd David hefyd wedi nodi gostyngiad a dirywiad y llinosiaid gwyrddion. Yn ôl ei nodyn, '*Mae'n i'w gweld yn mynd yn afiach, heintus, neu dost ac yn dew, ac yna'n diflannu'*. Dyma achos arall o barasit y trichomanes, yn fy marn i.

Fel sy'n arferol ar drothwy'r gwanwyn, fe gofnododd Paul Marshman ddychweliad yr **ehedyddion i'r tir uchaf uwchlaw Llwyn-y-pia ar fis Chwefror 15fed, pryd y gwelodd 15 o adar. Ymddengys taw'r glaswelltiroedd ucheldir a mynydd yw prif gynefin yr ehedyddion yn Rhondda Cynon Taf. Os yw ehedydd gwrywaidd am gael tymor magu llwyddiannus, rhaid iddo hawlio'r mannau uchaf oll.**

**Mamaliaid**

Cafodd Grŵp Mamaliaid De Cymru ei sefydlu yn ddiweddar. Cefais y nodyn hwn gan y Cadeirydd, Mike Brown, drwy law Mark Steer, a dyma fi'n ei drosglwyddo i chi:

*'Ar hyn o bryd, mae grŵp bach o ddilynwyr brwd mamaliaid yn ceisio cychwyn Grŵp Mamaliaid De Cymru. Buom ni'n cyfarfod ac yn trafod y cysyniad hwn gyda Rob Strachan, sy'n ecolegydd mamaliaid ac yn arbenigydd technegol bioamrywiaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae Rob yn hollol gefnogol i'r Grŵp. Bu yn rhoi cyngor i ni ar sail ei brofiad wrth sefydlu a rhedeg Grŵp Mamaliaid Eryri. Rydym yn awyddus i gynnwys ac ennyn diddordeb pawb sydd eisoes yn ymwneud â chadwraeth mamaliaid yn rhanbarth y De (gan osgoi damsiel ar gyrn traed neb!). Croeso hefyd i bawb sy'n newydd i'r maes. Am y tro, fodd bynnag, bydd y Grŵp yn cwmpasu'r un ardal â Chanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru. Bydd y Grŵp yn canolbwyntio yn bennaf ar gynnal a gwneud arolygon, ac ar lenwi'r bylchau yn ein hardal ni ar gyfer yr atlas mamaliaid cenedlaethol sydd ar y gweill.*

*Mae arnom angen pobl o bob cwr o Rondda Cynon Taf sydd â gwir ddiddordeb. Hoffech chi wybod beth sy'n mynd ymlaen? Ydych chi'n dymuno helpu gydag achlysuron yn eich ardal chi? Dyma dudalen Gweplyfr/Facebook i chi'i 'Hoffi': <https://www.facebook.com/southwalesmammalgroup> . Rydym ni wedi sefydlu cyfeiriad e-bost hefyd. Dyma fe: southwalesmammalgroup@gmail.com. Hoffech chi fod ar ein rhestr e-bostio? Mae'n rhad ac am ddim - gyrrwch neges atom! Mae'r Grŵp eisoes yn gysylltiedig â Chymdeithas y Mamaliaid. Rydym yn gweithio'n agos â'u Prosiect MaMoNet: (<http://www.mammal.org.uk/mamonet_wales>), Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Natur De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent, a Sefydliad Môr-wylio Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn hel dyddiadau ar gyfer achlysuron, ac arolygon dros y flwyddyn a ddaw - ond rydym ni angen eich cymorth!'*

O ran adroddiadau, mae Kevin Oates wedi trosglwyddo atom gofnod Clive Stanley Williams o'r **minc** a welodd ef ar Gamlas Aberdâr, Cwm-bach. Mae'r cofnod hwn yn cynnig ateb parod i gais gan Lorna Baggett, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Natur:

'*Mae'n hysbys i bawb fod y* ***llygoden bengron y dŵr*** *(Arvicola amphibius) yn dirywio. Ychydig o leoedd yn y wlad hon sy'n cynnal poblogaethau llygod pengrwn y dŵr. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd fodd bynnag ynghylch niferoedd y* ***mincod Americanaidd*** *(Neovison vison) estron ac ymledol sy'n debygol o fod yn y wlad hon, a pha mor niferus ydynt ac mewn sawl man. Ychydig iawn o gofnodi sydd ar y minc, er mor ddinistriol yw'i effaith ar ein rhywogaethau brodorol. Bydd yn debyg o gyfrannu'n sylweddol at gwymp yn nifer llygod pengrwn y dŵr. Dyna pam y mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Natur De a Gorllewin Cymru (YBGNDGC), gan weithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi ymgymryd y flwyddyn hon â gorchwyl ceisio coladu gwybodaeth o bob rhan o'r wlad hon ynghylch niferoedd, a lleoliadau mincod Americanaidd. Dyna pam rydym ni angen i gymaint ohonoch chi ag y bo modd rannu'ch cofnodion o sawl minc rydych chi wedi'i weld neu'i drapio. Ydych chi wedi gweld minc? Hoffech chi helpu? Rhowch wybod i Lorna Baggett ble gwelsoch chi'r minc, a'r dyddiad. Dyma'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn: field.assistant@welshwildlife.org <mailto:field.assistant@welshwildlife.org> 01656 724100'.*

Bu Ben Williams a'i gyd-weithwyr wrthi yn ymgymryd â gwaith rheoli cynefinoedd ar gyfer brithegion y gors yn Nhonyrefail a'r cylch. Yn hwyr yn yr hydref fe *gawsant hyd i ddwy nyth* ***llygod yr ŷd****, un i bob dydd o'r chwiliad, mewn caeau i'r gogledd o Donyrefail (ardal Penrhifer Road). Roedd y ddwy yn yr ardaloedd lle mae'r glaswellt hir uchel, a'r mieri, yn gymysg â'i gilydd. Hen nythod oeddent, ar ymyl y dryslwyni mieri. Fe ddengys hyn, yn fy marn i, fod yma boblogaeth sylweddol. Byddwn yn gofalu i beidio â difrodi'r mannau hyn.*' Mae'r cofnodion hyn yn ategu ein tybiaeth, fod llygod yr ŷd wedi ymsefydlu'n dda ym mhorfeydd

rhos Tonyrefail, ac mewn mannau eraill hefyd, go debyg (er na ddaeth cofnodion i law o fannau eraill hyd yn hyn).

Yn rhan dde-orllewinol Rhondda Cynon Taf, mae gennym gyfle gwych i fonitro sut mae'r **ystlumod pedol lleiaf** yn defnyddio safleoedd clwydfan/nythfa haf. Mae David Harry yn lwcus iawn i gael clwydfan/nythfa ystlumod pedol lleiaf yn ei gwt coed hyfryd o waith carreg. Drwy arsylwi yn ofalus fe lwyddodd i gofnodi mudo graddol yr ystlumod o'i glwydfan/nythfa ef i'w safleoedd gaeafgysgu ar gyfer y gaeaf. Ni lwyddwyd eto i gadarnhau lleoliadau'r rhain, er bod gennym ein hamheuon. Ar fis Medi 21ain 2013, felly, roedd David yn dal ag 20 o ystlumod pedol lleiaf yn ei gwt coed. Erbyn mis Hydref 23ain, roedd y nifer wedi disgyn i wyth. Roedd yno dair ystum mewn trwmgwsg ar fis Tachwedd 6ed, a dwy ar fis Tachwedd 14eg. Yna, ar fis Tachwedd 26ain, nid oedd yr un. Rwy'n dal i gofio fod y tywydd yr adeg honno gyda'r oeraf y gaeaf hwn.  Roedd David yn llawn cyffro wrth gofnodi dychweliad ystlum pedol lleiaf ar fis Chwefror 20fed 2014. Dyddiad rhyfedd o gynnar yw hwn, debygwn i, yn sgîl y gaeaf mwyn a gawsom ni. Er nad ydym ni i gyd yn ddigon ffodus i gael ystlumod pedol lleiaf yn ein cytiau, mae hyn yn dangos yn glir mor bwysig y gall ein harsylwadau personol fod wrth helpu i ddeall rhywogaethau a chynefin yn ein cyd-destun lleol ein hunain. Mae hyn i gyd yn torri tir newydd.

Mae ein gwybodaeth am ystlumod wedi cynyddu yn aruthrol ers datblygu synwyryddion ystlumod mwy soffistigedig. Gall cymhwyso technoleg fod o gymorth mawr ar gyfer rhywogaethau eraill. Am resymau a fydd yn amlwg, nid af i fanylion parthed y lleoliad, ond dyma adroddiad Dr. Steven Murray yn hwyr ym mis Ionawr: '*Mae fy ngwraig wedi prynu trap camera i fi. Rwyf wedi'i osod ger hen **froch**fa. Hen frochfa, ddywedaf, gan fod y rhan fwyaf o dyllau wedi syrthio i mewn, ac ambell un o'r twneli hefyd. Mi welais esgyrn ger un o'r tyllau, a dechrau amau o'r herwydd fod cadno wedi symud i mewn. Mi synnais i o weld moch daear yn dal i fyw yno.  Mi chwiliais am olion traed, blew, ac ymollyngfeydd ond heb gael hyd i ddim. Dyma ynghlwm y llun a dynnais ar ddydd Llun 12fed o fis Ionawr, gyda'r nos am 19.30. Rwyf am ganfod sawl mochyn daear sydd yno, a sawl twll sydd mewn defnydd. Byddaf yn gosod y camera eto yfory!*

**Ffyngau**

Ymwelodd Mark Evans â chae o eiddo'r Cyngor yn Aberdâr, cae sydd hefyd yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn ôl ei ddisgrifiad ef, *'Mi wibiais heibio'r wythnos ddiwethaf, rhwng dau ddarn o waith, i'r cae rhwng ffordd osgoi Aberdâr a'r dramffordd, ger ceuffordd cored y Gamlyn a Nant-yr-hwch. Roeddwn i am wirio'r **eurwiail** am larfau **pytiau gwelw**. Ni welais i'r un larfa o'r rhywogaeth honno, ond gwelais dwy larfa o **bwtyn yr eurwialen**, ac hefyd **pryf tafol** a **tharianbryf gwyrdd cyffredin**. A minnau'n ymadael, ddarfu i mi gael hyd i ryw ffyngau anghyffredin yr olwg ar y banc sy'n ffin i ymyl is y cae, a thynnais luniau ohonynt. Wrth gyrraedd adref mi edrychais ar 'Mushrooms and other Fungi of Great Britain and Europe', gan Roger Phillips. **Pseudocraterellus undulatus**,*

*oedd y ffyngau, sydd i fod ar y Rhestr Data Coch. Tybed a yw hyn yn gywir? O edrych ar y llun a yrrodd Mark, rwy'n amau'i fod yn iawn.*

Mae cynlluniau ar y gwaith i sefydlu **Grŵp Ffyngau Morgannwg** newydd, yn ogystal â'r Grŵp Mamaliaid newydd. Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Ionawr i drafod manylion y Grŵp newydd, a gyrrodd Mark Steer negys am hyn ataf oddi wrth Rich Wright. Nid wyf yn sicr pa mor bell ymlaen mae hyn, ond pan fydd rhaglen achlysuron ar waith, fe wnawn ein gorau i roi gwybod i chi i gyd drwy'r Cylchlythyr.

Mae Mark Steer wrthi yn gyson yn llunio rhestr drawiadol o ffyngau ar gyfer Coed y Brynna, Llanharan. Fe gadarnhaodd ef fod y ffyngau wedi ffynnu eleni.

Ionawr 2014: Botwm jeli piws *Ascocoryne sarcoides neu Ascocoryne cyclinium* (mae angen meicrosgob i wahaniaethu rhwng y rhywogaethau), cynffon y twrci *Trametes versicolor* ,coesyn melfed *Flammulina velutipes,* brigyn cennog *Tubaria fufuracea* (mewn coedydd ac ar randiroedd) a smotiau jeli cyffredin *Dacrymyces stillatus.*
Rhagfyr 2013:  Cap niwl *Clitocybe nebularis*  (digonedd yn y coedydd eleni), glud gwyn *Exidia thuretiana,* wystrysen y coed *Crepidotus variabilis neu Crepidotus cesatii* - ('ffyngau pen i waered' ond fod angen meicrosgob er mwyn dweud p'un yw p'un), crawen ysgaw *Hyphodontia sambuci,* clustiau'r ysgaw *Auricularia auricula-judae,* ffwng arianddail *Chronroterum purpuream* (ar fôn coeden ger Cae Hamdden Brynna), a chrwstyn glas*Terana caerula* (digonedd yng Nghoed Brynna, gyda'r rhan fwyaf ar gyll marw ond peth ar ddrain gwynion byw).

Tachwedd 2013: Twndish melyn *Lepista flaccida,* ysgwydd droed-ddu *Polyporus* leptocephalus, crwst rhwd Phellinus ferrus neu *Phellinus ferruginosus,* coes las y coed *Lepista nuda,* smotiau cwrel *Nectria cinnabarina,* a ffwng lindys coch *Cordyceps militaris* (ar Dir Comin Coety, y tu allan i Rondda Cynon Taf).

Hydref 2013: Nyth aderyn cyffredin *Crucibulum leave,* cap tyllog parasitaidd *Pseudoboletus parasiticus* ar goden euraid gyffredin *Scleroderma citrinum* (yng Nghoed Allt-y-Rhiw, y tu allan i Rondda Cynon Taf), cwrel llwyd *Clavulina cinerea,*  a choden y coed *Lycoperdon pyriforme.*

Medi 2013: Y twyllwr *Laccaria laccata,* tafod yr ych *Fistulina hepatica,* marchog y swlffwr *Tricholoma sulphureum,* cap tyllog brown y fedwen *Leccinum scabrum,* bonet rhisgl *Mycena speirea,* ysgwydd y fedwen *Piptoporus betulinus,* bonet coed *Mycena galericulata,* ysgwydd yr helygen *Daedaleopsis confragosa,* llwydni cap tyllog *Hypomyces chrysospermus* (sy'n gwneud gwahaniaethu rhwng capiau tyllog a genysau cysylltiedig yn amhosibl!) a chogwrn caws anis *Lentinellus cochleatus.*

Yn ychwanegol at hynny, mae Mark wedi nofi *tripa'r sêr Nostoc commune'*. '*Bacteriwm gwyrddlas yw hwn, sy'n gyffredin ac amlwg iawn yn y De yn sgîl ac*

*oherwydd y glawiad.  Yn tyfu ar darmac, briciau, ayyb, ond heb fod ynghlwm â hwy. Fe dybir amdano yn aml fel ffwng jeli, neu alga.*

Mae Mark Evans wedi crynhoi'i holl gofnodion **crwstyn glas** *Pulcherucium caeruleum* ar fap dosbarthiad. Mae hyn yn dangos, chwedl yntau, fod *'Cwm Cynon yn eu croesawu i bob cwr'*. Coron ar ei adroddiad oedd adroddiad cyntaf Pontypridd ar gyfer crwstyn glas. Cafodd hyd i hyn ar ôl cerdded am bum munud ym Mharc Ynysangharad.

**Amffibiaid ac Ymlusgiaid**

Gan Paul Marshman roedd y cofnodion **grifft brogaod** y flwyddyn. Roedd grifft i'w weld mewn pyllau olion ceirt ar fis Ionawr 30$^{ain}$, ger Cwm Bodwenarth. Gwnaeth ef ei gofnodion cyntaf ar gyfer 2013 ar fis Ionawr 30$^{af}$, o'r union un olion cart.  Erbyn mis Chwefror 15$^{fed}$, roedd Paul wedi cofnodi grifft brogaod o dri safle ar ei libart ef. Roedd pob un yn uwch na 1,000 o droedfeddi. Roedd y grifft yn dal heb gyrraedd y pyllau cysgodol coetir yng Nglyncornel. Fel y bu i ni ddweud droeon, creaduriaid eithaf gwydn yw brogaod y Cymoedd. Serch hynny fe ddychwelodd y brogaod i'm pwll gardd iseldir ym Meisgyn, Pont-y-Clun, ar fis Chwefror 16$^{eg}$, dair wythnos yn gynt nag yn 2013. A minnau'n ysgrifennu hyn, mae'r pwll dŵr yn llenwi â grifft.

**Creaduriaid Di-asgwrn-cefn**

Mae hi'n teimlo fel amser maith yn ôl bellach, ond roedd yr hydref diwethaf yn dymor gwych ar gyfer gloÿnnod. **Roedd trilliwiau bach** a **mentyll cochion** i'w gweld ym mhob man. Ar fis Medi 25$^{ain}$, yng nghwmni Sue Westwood, fe fûm i'n ddigon ffodus i weld rhai dwsinau o drilliwiau bach yn bwydo o'r eangderau porffor o damaid y cythraul yn blodeuo ar borfeydd rhos Cors Llanilltud Faerdref. Mi welsom ni **felyn y rhafnwydd** gwrywaidd yno hefyd, ac un **llwydfelyn.**

**Botaneg**

Cefais adroddiad yn yr hydref am ddarganfyddiad gwirioneddol uchel yng nghoedwig Pen-y-Cymoedd. Daeth oddi wrth Charles Hipkin, a roes wybod am boblogaeth iach o **grwynllys y maes** (*Gentianella campestris*) wrth ymyl ac ochr prif ffordd y goedwig ger ffin Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Mae'r cofnod hwn yn hynod ddiddorol. Yn ôl fy hen gopi i o 'The Flora of Glamorgan', mae crwynllys y maes yn rhywogaeth brin iawn, er iddo fod yn weddol gyffredin ar un adeg mewn porfeydd twyni'.

Rhywogaeth twyni yw crwynllys y maes, bellach yn dechrau ymgartrefi yn ein hucheldir a mynydd. Mae ambell cytrefydd twyni wedi cyrraedd o'i flaen. Mae gleision-y-gaeaf hefyd yn symud i mewn i'r twyni yn gyflym iawn. Yn ôl nodyn atgoffa gan Mark Evans, '*Tybed a glywsoch chi beth welodd Martin Bevan? Roedd* ***gleision y gaeaf deilgrwn*** *yn tyfu ar lan pwll dŵr bach, yn y goedwigaeth islaw Craig-y-Llyn. Ebostiodd luniau o'r blodau (ond heb dynnu llun o'r dail).*

*Gyrrais y rhain ymlaen at Julian Woodman, a gadarnhaodd beth roedd Julian wedi'i nodi. Fel y dywedodd Julian, 'Mae'n cyrraedd pob twll a chornel.'*

**Tamaid y cythraul** *Succisa pratensis* yw un o blanhigion mwyaf nodweddiadol ein porfeydd rhos. Er hyn i gyd, mae'n dal yn eithaf prin yn rhannau uchaf Cymoedd y Rhondda. Mae Paul Marshman wedi dangos ychydig leoedd a i mi ond, yn rhyfedd iawn, mae'n brin iawn. Newyddion da felly oedd gweld lluniau Mrs. Middlehurst o Succisa yn blodeuo o laswelltiroedd ochr y cwm ym Mlaen-cwm. Mae'n fwy na mater o blanhigyn neu ddau, yn ôl pob tebyg. Byddaf yn sicr o wylio amdano yn yr haf.

Cefais adroddiad gan Mark Steer am ei randir yn y Brynna. Cofnododd ef y mwyaf clasurol o blanhigion egsotig rhandiroedd, sef yr **afal dreiniog** *Datura stramonium*. '*Dim ond yn ystod haf poeth bydd hwn yn ymddangos,' medd Mark. Mae'r hadau yn wenwynig iawn, ond mae'n debyg eu bod yn un o gynhwysion hadau adar. Mae pobl yn eu tyfu i ac at y diben hwn yn Ne-Ddwyrain Ewrop, ond rwy'n credu taw o gyfandiroedd America y maent yn dod yn wreiddiol.'*

Wel, dyna ddigon am y tro, mae'n debyg. Diolch unwaith eto am eich cofnodion, a hoffwn ymddiheuro os digwyddais adael rhywbeth allan. Hoffech chi fersiwn Saesneg o Gylchlythyr y Cofnodwyr? Croeso i chi roi gwybod i ni.

Richard Wistow, Ecolegydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Llwyncastan, Library Road, Pontypridd, CF37 2YA  Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk